Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i gyfraith Cymru mewn perthynas â Chyfarwyddebau'r Undeb Ewropeaidd ar fwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu

## Dyddiad lansio: 4 Awst 2022

## Ymateb erbyn: 1 Medi 2022

## I bwy y bydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb yn bennaf?

- Gweithgynhyrchwyr bwyd, bwyd anifeiliaid a deunydd pecynnu bwyd, mewnforwyr/allforwyr a manwerthwyr
- Cyrff masnach sy'n cynrychioli rhanddeiliaid mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu *(extraction solvents)*
- Sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr mewn cadwyni bwyd a chadwyni bwyd anifeiliaid
- Awdurdodau gorfodi

Mae rhestr o bartïon sydd â buddiant wedi'i chynnwys yn Atodiad A

## Pwnc yr ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid ar y cynigion i gywiro diffygion mewn deddfwriaeth genedlaethol (Cymru yn unig) mewn perthynas â bwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu, ar wahân, er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Ar hyn o bryd, mae'r ddeddfwriaeth genedlaethol berthnasol ar fwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu yn cynnwys elfennau

anweithredol y mae angen eu datrys wedi i'r DU ymadael â'r UE. Yn benodol, mae'r ddeddfwriaeth yn croesgyfeirio at atodiadau ac erthyglau penodol yng Nghyfarwyddebau UE'r sy'n gysylltiedig â hi. Mae angen mynd i'r afael â'r elfennau anweithredol hyn gan ddefnyddio pwerau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (EUWA). Mae'r EUWA yn amodi, y bydd peth o ddeddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol yn y DU yn cael ei throsi'n gyfraith y DU ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.. Mae'r EUWA hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Rhagfyr gywiro cyfraith yr UE a ddargedwir *(retained EU law)*, fel ei bod yn gweithredu'n effeithiol fel cyfraith y DU. Mae cywiriadau angenrheidiol wedi'u gwneud trwy nifer o offerynnau statudol ar draws Llywodraeth Cymru.

Ni fydd y pwerau hyn ar gael mwyachRhagfyr31 Rhagfyr 2022, a rhaid pennu'r ddeddfwriaeth genedlaethol ddiwygiedig cyn i'r pwerau ddod i ben. Yn ogystal, er mwyn sicrhau deddfwriaeth lân y gellir ei gweithredu, dylid dileu cyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE ac atodiadau cysylltiedig o ddeddfwriaeth genedlaethol sy'n ymwneud â bwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu.

Bydd arfer y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru yn destun craffu Seneddol yn Senedd Cymru, a bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn cael ei gosod gerbron y Senedd i'w hystyried yn briodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â newidiadau i'r Offerynnau Statudol yng Nghymru yn unig. Mae newidiadau tebyg yn cael eu cyflwyno i ddeddfwriaeth genedlaethol yn Lloegr a'r Alban.

## Diben yr ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am safbwyntiau, sylwadau ac adborth rhanddeiliaid mewn perthynas â'r cynigion i ymgorffori darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfarwyddebau'r UE, neu a ragnodir drwy gyfeirio atynt, mewn cyfraith ddomestig ar fwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu. Gofynnwn i randdeiliaid ystyried a oes unrhyw ofynion perthnasol ar goll, neu a ydynt yn fodlon â'r newidiadau arfaethedig.

## Y broses ymgysylltu ac ymgynghori

Mae ymgynghoriad cyhoeddus pedair wythnos yn cael ei lansio i roi cyfle i bartïon sydd â buddiant wneud sylwadau ar y cynigion polisi ar gyfer ymgorffori gofynion a geir yng Nghyfarwyddebau'r UE mewn cyfraith genedlaethol ar fwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu.

Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn fyr o gymharu â'r cyfnod lleiaf o ddeuddeg wythnos. Mae'r ymgynghoriad hwn yn fyrrach oherwydd bod angen i'r ASB gwblhau'r broses gan

roi digon o amser ar gyfer defnyddio pwerau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, sy'n dod i ben ddiwedd 2022.

Bydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried yn ofalus, a bydd crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ASB o fewn tri mis i'r ymgynghoriad ddod i ben.

## Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad e-bost canlynol:

**Polisi Bwyd Cymru:** Food.Policy.Wales@food.gov.uk

## Manylion yr ymgynghoriad

Mae adrannau ar wahân ar gyfer y newidiadau i’r ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu.

Bwyd anifeiliaid

Deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

Toddyddion echdynnu

## Bwyd Anifeiliaid

## Cyflwyniad

Mae deddfwriaeth bwyd anifeiliaid yng Nghymru yn croesgyfeirio at y rhestrau yng Nghyfarwyddeb 2002/32/EC a Chyfarwyddeb 82/475/EEC. Mae’r croesgyfeiriadau at y Cyfarwyddebau fel yr oeddent ar ddiwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu (31 Rhagfyr 2020, 23:00); ni ellir gwneud diwygiadau testunol i’r Cyfarwyddebau eu hunain.

Cyfarwyddeb 2002/32/EC ar sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid.

Gall cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid gynnwys sylweddau annymunol a all beryglu iechyd anifeiliaid neu, oherwydd eu presenoldeb mewn cynhyrchion da byw, iechyd pobl neu’r amgylchedd. Mae’n amhosib cael gwared ar bresenoldeb sylweddau annymunol yn llwyr, ond mae’n bwysig lleihau eu cynnwys mewn cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid er mwyn atal effeithiau annymunol a niweidiol.

Caniateir i sylweddau annymunol fod yn bresennol mewn cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid yn unig yn unol â’r amodau a osodir yn Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016 (OS 2016/386), drwy groesgyfeirio at Gyfarwyddeb 2002/32/EC; ac ni chaniateir defnyddio’r sylweddau hyn mewn unrhyw ffordd arall at ddibenion bwyd anifeiliaid. Rhaid i gynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid fod yn ddiogel, yn ddilys ac o ansawdd gwerthadwy, ac felly pan gânt eu defnyddio’n gywir ni ddylent beryglu iechyd pobl, iechyd anifeiliaid na’r amgylchedd, nac effeithio’n andwyol ar gynnyrch da byw. Felly, rhaid gwahardd defnyddio cynhyrchion a fwriedir ar gyfer bwyd anifeiliaid sy’n cynnwys lefelau o sylweddau annymunol sy’n uwch na’r lefelau uchaf a nodir yn yr atodiadau i’r Gyfarwyddeb hon, a gwahardd eu rhoi ar y farchnad.

Cyfarwyddeb 82/475/EEC, categorïau o ddeunyddiau bwyd anifeiliaid y caniateir eu defnyddio at ddibenion labelu bwyd anifeiliaid cyfansawdd ar gyfer anifeiliaid anwes

Mae Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliad a ddargedwir (EC) Rhif 767/2009 ar roi bwyd anifeiliaid ar y farchnad a'i ddefnyddio. Mae'r Rheoliad hwn yn nodi'r gofynion ar gyfer marchnata, labelu a chyfansoddiad bwyd anifeiliaid, ac yn cynnwys darpariaethau sydd â'r bwriad o ddiogelu iechyd pobl ac anifeiliaid. Mae gofynion labelu gorfodol ar gyfer bwyd anifeiliaid cyfansawdd a nodir yn y Rheoliad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddeunyddiau bwyd anifeiliaid sy'n rhan o gyfansoddiad y bwyd anifeiliaid gael eu rhestru ar y label. Yn achos bwyd anifeiliaid cyfansawdd a fwriedir ar gyfer anifeiliaid nad ydynt yn cynhyrchu bwyd, gellir disodli dynodiad enw penodol y deunydd bwyd anifeiliaid gydag enw'r categori y mae'r deunyddiau bwyd anifeiliaid yn perthyn iddo. O dan Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016, dim ond y categorïau a restrir yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 82/475/EEC y gellir eu nodi at ddibenion Rheoliad (EC) Rhif 767/2009.

## Prif Gynigion:

- Er mwyn hwyluso diwygiadau i'r rhestrau o sylweddau annymunol a ragnodir ar hyn o bryd drwy gyfeirio at y rhestrau yng Nghyfarwyddeb 2002/32/EC, ac i'w gwneud yn haws eu haddasu ar gyfer datblygiadau gwyddonol a thechnegol, rydym yn cynnig ymgorffori'r rhestrau hyn yn y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016. Yn ogystal, rydym hefyd yn cynnig cadw'r rheolaethau a nodir yn y Gyfarwyddeb, ac addasu croesgyfeiriadau o'r ddeddfwriaeth hon at y Gyfarwyddeb. Fel rhan o hyn byddwn yn ystyried trosi pwerau a roddir gan y Gyfarwyddeb yn bwerau domestig.
- Er mwyn hwyluso'r gwaith o addasu'r rhestr categorïau a ragnodir ar hyn o bryd drwy gyfeirio at y rhestr yng Nghyfarwyddeb 82/475/EEC yn y dyfodol, rydym yn cynnig ymgorffori'r rhestr honno yn y Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016 ac addasu croes-gyfeiriadau o'r ddeddfwriaeth hon at y Gyfarwyddeb.

## Ddeunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd

## Cyflwyniad

Mae caen cellwlos atgynyrchiedig (RCF) neu *'regenerated cellulose film'* yn ddeunydd haenen denau a geir o gellwlos wedi'i buro sy'n deillio o bren neu gotwm heb eu hailgylchu. Gellir gorchuddio RCF ar un ochr neu'r ddwy ochr. Mae gofynion penodol y mae'n rhaid eu dilyn wrth weithgynhyrchu RCF y bwriedir iddo ddod i gysylltiad â bwydydd. Cyn ymadael â'r UE, nodwyd y gofynion hyn yng Nghyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau wedi'u gwneud o gaen cellwlos atgynyrchiedig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwydydd. Troswyd y gofynion hyn gan Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 (OS 2012/2705). Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, sylwyd y dylid nodi'r rhestr lawn o sylweddau awdurdodedig a ragnodir ar hyn o bryd drwy gyfeirio at Atodiad II (rhestr o sylweddau a awdurdodwyd i gynhyrchu caen cellwlos atgynyrchiedig) i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC yn llawn o fewn Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 er hwylustod.

O dan Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012, cynigir ymgorffori'r rhestr lawn o sylweddau awdurdodedig a ragnodir ar hyn o bryd o dan Atodiad II (rhestr o sylweddau a awdurdodwyd i weithgynhyrchu caen cellwlos atgynyrchiedig) i Gyfarwyddeb 2007/42/EC sy'n ymwneud â deunyddiau ac eitemau sydd wedi'u gwneud o gaen cellwlos atgynyrchiedig y bwriedir iddynt ddod i gysylltiad â bwyd.

Y lleoliad arfaethedig fydd rhestru'r rhain o fewn atodlen yn Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012. Mae hyn yn cynnwys y rhan gyntaf ar gyfer caen cellwlos atgynyrchiedig heb ei gorchuddio, sy'n ymwneud ag ychwanegion a ganiateir o dan y penawdau meddalyddion ac ychwanegion eraill (sy'n cynnwys dosbarth cyntaf, ail ddosbarth, trydydd dosbarth – sylwedd *(agent)* angori a phedwerydd dosbarth). Mae'r ail ran ar gyfer caen cellwlos atgynyrchiedig wedi'i gorchuddio yn cynnwys ychwanegion a haenau a ganiateir (sy'n cynnwys polymerau, resinau, plastigyddion, ychwanegion a thoddyddion eraill).

Bydd hyn yn rhoi eglurder i weithredwyr busnesau y caniateir i'r sylweddau hyn gael eu defnyddio mewn caen cellwlos atgynyrchiedig wedi'i gorchuddio neu heb ei gorchuddio y bwriedir iddi ddod i gysylltiad â bwyd, yn destun unrhyw gyfyngiadau unigol penodol. Bydd cynnwys y rhestr hon o sylweddau awdurdodedig o fewn rheoliadau Cymru hefyd yn hwyluso ychwanegiadau at y rhestr a ddargedwir gan y byddwn yn asesu sylweddau newydd i'w hawdurdodi o dan y Weithdrefn Cymeradwyo Cynhyrchion wedi'u Rheoleiddio. Bydd hefyd yn hwyluso asesu sylweddau awdurdodedig cyfredol pe bai tystiolaeth newydd yn ymwneud â'u diogelwch yn dod i law'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban.

## Y prif gynigion:

- Ymgorffori'r rhestrau a ragnodir ar hyn o bryd drwy gyfeiriad yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC, fel yr oedd wrth ymadael â'r UE, mewn Atodlen newydd yn Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012.
- Dileu croesgyfeiriadau at Gyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC, gan gynnwys at ei Hatodiadau, yn Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012.

### Newidiadau nad ydynt yn cael eu hystyried

Rydym o'r farn bod gan Weinidogion ddigon o bwerau ar hyn o bryd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i sicrhau bod diogelwch defnyddwyr a diogelwch bwyd yn cael eu cynnal mewn perthynas ag awdurdodi a defnyddio sylweddau mewn caen cellwlos atgynyrchiedig. Bydd arfer y pwerau hyn yn destun craffu gan Senedd Cymru, a bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn cael ei gosod gerbron y Senedd i'w hystyried yn briodol.

## Toddyddion Echdynnu *(extraction solvents)*

## Cyflwyniad

Mae toddyddion echdynnu'n cael eu defnyddio wrth brosesu deunyddiau crai neu gynhwysion bwyd i naill ai echdynnu cydrannau dymunol (er enghraifft, cyfansoddion cyflasynnau o blanhigion), neu i dynnu neu leihau lefel rhai sylweddau penodol mewn bwyd (er enghraifft, dadgaffeineiddio coffi neu dynnu brasterau o gynhyrchion soia). Tra bod toddyddion echdynnu'n cael eu tynnu yn ystod y broses gynhyrchu, mae'n anochel yn dechnegol y gall gweddillion y toddydd aros yn y bwyd. Er mwyn sicrhau bod swm y toddydd echdynnu yn y bwyd neu'r cynhwysyn bwyd mor isel â phosib, gosodir terfynau gweddillion uchaf (MRLs). Os yw'r toddyddion echdynnu yn fwyd, er enghraifft ethanol, yna ni osodir unrhyw derfynau rhifiadol ond rhaid i'r defnydd ohonynt fod yn unol ag Arferion Gweithgynhyrchu Da. Yn gyffredinol, nid yw toddyddion echdynnu'n cael eu gwerthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr terfynol ond maent yn cael eu masnachu rhwng busnesau.

Ar hyn o bryd, mae rheolaethau ar ddefnyddio toddyddion echdynnu'n dod o dan Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013 (OS 2013/2591) ("Rheoliadau 2013" yn yr ymgynghoriad hwn), sy'n croesgyfeirio at Gyfarwyddeb 2009/32/EC ("y Gyfarwyddeb") ar doddyddion echdynnu a ddefnyddir i gynhyrchu bwydydd a chynhwysion bwyd.

Mae Rheoliadau 2013 yn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion penodol, fel labelu, ac yn atal unrhyw un rhag defnyddio toddyddion echdynnu na chânt eu caniatáu, neu eu rhoi ar y farchnad. Maent yn nodi'r darpariaethau gorfodi a'r cosbau ar gyfer busnesau nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol. Mae Atodiad I i'r Gyfarwyddeb yn gosod toddyddion echdynnu a ganiateir, eu lefelau defnyddio a therfynau uchaf y gweddillion. Yn ogystal, mae Erthygl 3(c) o'r Gyfarwyddeb yn gweithredu fel dalfan *(placeholder)* er mwyn caniatáu gallu gwneud diwygiadau yn y dyfodol yn unol â meini prawf purdeb. Mae Rheoliadau 2013 yn cynnwys croesgyfeiriadau at Atodiad I ac Erthygl 3(c).

Mae Atodiad I i'r Gyfarwyddeb yn rhestru'r toddyddion echdynnu awdurdodedig a'r terfynau gweddillion uchaf cysylltiedig, ac mae Erthygl 3(c) o'r Gyfarwyddeb yn croesgyfeirio Erthygl 4(d) ar bennu meini prawf purdeb penodol ar gyfer toddyddion echdynnu a ganiateir. Roedd hyn yn golygu bod Rheoliadau 2013 bob amser yn cyfeirio at y fersiwn ddiweddaraf o Atodiad I. Roedd hyn yn dileu'r angen i ddiweddaru Rheoliadau 2013 pan wnaed newidiadau i Atodiad I. Er bod y croesgyfeiriadau hyn yn darparu gwaith ymarferol tra oeddem yn Aelod-wladwriaeth, rydym yn awr yn cynnig ymgorffori'r rhestr a ragnodir ar hyn o bryd drwy gyfeirio at Atodiad I, yn Rheoliadau 2013, a dileu'r croesgyfeiriadau. Bydd Rhan 3 o Reoliadau 2013 wedyn yn gweithredu fel darn unigol o ddeddfwriaeth.

## Prif gynigion

- Nodi'r rhestr o doddyddion echdynnu a ganiateir yn ei chyfanrwydd yn Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013, gan ddileu'r croesgyfeiriadau at Atodiad I i'r Gyfarwyddeb.
- Dileu croesgyfeiriadau eraill yn Rheoliadau 2013 at y Gyfarwyddeb nad ydynt bellach yn briodol neu sy'n cynnwys elfennau anweithredol o ganlyniad i ymadael â'r UE, er enghraifft y cyfeiriad at Erthygl 3(c) y Gyfarwyddeb.

Mae cynigion tebyg yn cael eu hystyried yn Lloegr a'r Alban. Bydd Safonau Bwyd yr Alban a'r ASB yn Lloegr yn cynnal eu hymgynghoriad ar wahân eu hunain ar y pwnc hwn.

## Newidiadau nad ydynt yn cael eu hystyried

Nid ydym yn nodi proses mewn deddfwriaeth i fusnesau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer toddyddion echdynnu newydd neu addasiadau i amodau cyfredol ar ddefnyddio toddyddion echdynnu. Mae gwybodaeth eisoes ar gael ar wefan yr ASB ar sut i wneud cais am gymeradwyo toddyddion echdynnu: https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/rheoleiddio-cynhyrchion/canllawiau-toddyddion-echdynnu

Yn ogystal, rydym o’r farn bod gan Weinidogion ddigon o bwerau ar hyn o bryd o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 i sicrhau bod diogelwch defnyddwyr a diogelwch bwyd yn cael eu cynnal mewn perthynas ag awdurdodi a defnyddio sylweddau mewn caen cellwlos atgynyrchiedig. Bydd arfer y pwerau hyn mewn perthynas â Chymru yn destun craffu gan Senedd Cymru, a bydd unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn cael ei gosod gerbron y Senedd i’w hystyried yn briodol.

## Effeithiau

Gan fod y rhain yn newidiadau technegol nad ydynt yn effeithio ar sylwedd y gofynion presennol o dan ddeddfwriaeth, nid ydym yn disgwyl y bydd hyn yn effeithio ar fusnesau’n sylweddol. Fodd bynnag, gan fod y ddeddfwriaeth yn newid, bydd costau ymgyfarwyddo i awdurdodau gorfodi a busnesau.

Felly, nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ffurfiol wedi’i lunio ar gyfer y mân ddiwygiadau rheoleiddiol hyn. Fodd bynnag, os bydd yr ymgynghoriad yn amlygu unrhyw effaith ar gyrff gorfodi neu’r diwydiant na ragwelwyd, byddwn yn asesu’r angen am asesiad effaith rheoleiddiol.

### Grwpiau yr effeithir arnynt

Mae’r cynigion wedi’u cynllunio i sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn addas i’r diben nawr bod y DU wedi ymadael â’r UE. Nod yr ymgynghoriad hwn yw nodi a fyddai’r dull hwn yn helpu i roi rhagor o eglurder i randdeiliaid, heb achosi tarfu diangen.

#### Bwyd Anifeiliaid

Y prif randdeiliaid yr effeithir arnynt yw gweithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yng Nghymru ac awdurdodau bwyd anifeiliaid.

#### Ddeunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

Y prif randdeiliaid yr effeithir arnynt yw busnesau o Gymru sydd naill ai’n gwerthu sylweddau ar gyfer cynhyrchu caenau cellwlos atgyfnerthedig a ddaw i gysylltiad â bwyd i fusnesau eraill neu’n eu defnyddio wrth weithgynhyrchu deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd o’r fath. Effeithir hefyd ar awdurdodau lleol Cymru, er mai bach iawn fydd yr effaith arnynt gan nad yw awdurdodau lleol yn chwarae rhan yn y broses awdurdodi ei hun.

#### Toddyddion Echdynnu

Y prif randdeiliaid yr effeithir arnynt yw busnesau o Gymru sydd naill ai’n gwerthu toddyddion echdynnu i fusnesau eraill neu’n eu defnyddio wrth weithgynhyrchu cynhyrchion bwyd. Effeithir hefyd ar awdurdodau lleol Cymru, er mai bach iawn fydd yr effaith arnynt gan nad yw awdurdodau lleol yn chwarae rhan yn y broses awdurdodi ei hun.

## Costau a buddion

Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw effaith sylweddol yn sgil y cynigion ac eithrio mewn perthynas â chost ymgyfarwyddo untro ddibwys unwaith y bydd y newidiadau deddfwriaethol i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnyddio) (Cymru) 2016, Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd Rheoliadau (Cymru) 2012, a Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013, a amlinellir isod.

Mae'r ASB yn amcangyfrif cyfanswm cost ymgyfarwyddo untro o £18,600 i fusnesau ac awdurdodau lleol yng Nghymru[1].

1. Rydym yn rhagweld cost ymgyfarwyddo i'r busnesau canlynol yn dibynnu ar y ddeddfwriaeth sy'n cael ei hymgorffori. Gan ddefnyddio Cofrestr Busnes Rhyngadrannol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (IDBR), rydym yn amcangyfrif y gallai 560 o fusnesau bwyd ymwneud â thoddyddion echdynnu yng Nghymru. Gan ddefnyddio cofrestr fewnol o fusnesau bwyd anifeiliaid, amcangyfrifwn y byddai angen i gyfanswm o 128 o fusnesau bwyd anifeiliaid yng Nghymru ddeall y ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid gorfforedig. Ar hyn o bryd nid ydym yn ymwybodol o unrhyw fusnesau yng Nghymru y byddai angen iddynt ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth caen cellwlos, ond byddem yn croesawu adborth gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar hyn.
2. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn cymryd awr i un rheolwr fesul busnes ddarllen a deall y newidiadau deddfwriaethol ac yna rhannu'r wybodaeth â staff allweddol yn eu cwmnïau. Gan gymhwyso ffigurau tâl canolrifol yr awr 2021 ar gyfer rheolwyr a chyfrifo ar gyfer gorbenion, amcangyfrifir mai cyfanswm cost ymgyfarwyddo i fusnesau yng Nghymru yw £17,400[2].
3. Defnyddir yr un fethodoleg a amlinellir uchod i gyfrifo costau ymgyfarwyddo awdurdodau lleol. Gan ddefnyddio'r Adroddiad Blynyddol ar Orfodi Cyfraith Bwyd gan Awdurdodau Lleol, tybiwn y bydd angen i 47 o unigolion ar draws 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ymgyfarwyddo â'r newidiadau deddfwriaethol, a bod hyn yn cymryd awr ar draws pob un o'r tri rheoliad sy'n cael eu hymgorffori. Mae hyn yn cyfateb i gost ymgyfarwyddo untro o £1,200 i awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am safonau bwyd yng Nghymru.

---

[1] Mae'r ffigurau'n seiliedig ar brisiau 2021.

[2] Mae cyfraddau cyflog wedi'u cymryd o Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ASHE), tabl 14.6a.

## Y Broses Ymgysylltu ac Ymgynghori

Bwriad yr ymgynghoriad hwn yw rhoi cyfle i bartïon sydd â buddiant roi eu sylwadau a'u safbwyntiau ar y cynigion a eglurir uchod. Yn benodol, a ddylai'r atodiadau perthnasol ar gyfer pob cyfundrefn gael eu cynnwys yn eu cyfraith genedlaethol ar wahân eu hunain.

Bydd yr holl ymatebion a ddaw i law yn helpu i lywio'r dull gweithredu y gellir ei fabwysiadu i hwyluso'r gwaith o reoleiddio bwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu, yng Nghymru

Mae cynigion tebyg yn cael eu hystyried yn Lloegr a'r Alban. Bydd Safonau Bwyd yr Alban a'r ASB yn Lloegr yn cynnal eu hymgynghoriadau ar wahân eu hunain ar y pynciau hyn.

Yn benodol, rydym yn croesawu ymatebion ac adborth cyffredinol i'r cwestiynau canlynol. Ar gyfer pob cwestiwn, esboniwch eich ymateb a rhowch dystiolaeth (lle bo modd) i gefnogi eich safbwyntiau.

## Y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad hwn:

### Bwyd Anifeiliaid

1. Ydych chi'n cytuno y byddai ymgorffori'r Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 82/475/EEC yn neddfwriaeth Cymru yn ei gwneud yn haws i awdurdodau gorfodi, y diwydiant a'r cyhoedd gyfeirio iddo? Os nad ydych chi, esboniwch pam.
2. Ydych chi'n cytuno y byddai ymgorffori Atodiad II a II i Gyfarwyddeb Cyngor 2002/32/EC yn neddfwriCymruCymru yn ei gwneud yn haws i awdurdodau gorfodi, y diwydiant a'r cyhoedd gyfeirio iddo? Os nad ydych chi, esboniwch pam.
3. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r mesurau arfaethedig eu cael nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
4. Ydych chi'n cytuno â'r gost ymgyfarwyddo sydd wedi'i nodi? Os nad ydych chi, esboniwch pam.
5. A oes unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n helpu i roi ragor o eglurder ynghylch rheoleiddio presenoldeb sylweddau annymunol mewn bwyd anifeiliaid? Os oes, eglurwch beth yw'r rhain, a pha fuddion y gallent eu cynnig.
6. Oes unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n helpu i roi rhagor o eglurder ynghylch rheoleiddio'r defnydd o labeli categori ar fwyd anifeiliaid anwes? Os oes, eglurwch beth yw'r rhain, a pha fuddion y gallent eu cynnig.

### Deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd

1. Ydych chi'n cytuno y byddai ymgorffori Atodiad II i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2007/42/EC yn nedCymruaeth Cymru yn ei gwneud yn haws i awdurdodau gorfodi, y diwydiant a'r cyhoedd gyfeirio iddo? Os nad ydych chi, esboniwch pam.

2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r mesurau arfaethedig eu cael nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?

3. Ydych chi'n cytuno â'r gost ymgyfarwyddo sydd wedi'i nodi? Os nad ydych chi, esboniwch pam.

4. Oes unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n helpu i roi rhagor o eglurder ynghylch rheoleiddio'r defnydd o sylweddau ar gyfer cynhyrchu caenau cellwlos atgyfnerthedig a ddaw i gysylltiad â bwyd? Os oes, eglurwch beth yw'r rhain, a pha fuddion y gallent eu cynnig.

### Toddyddion Echdynnu

1. Ydych chi'n cytuno y byddai ymgorffori Atodiad I i Gyfarwyddeb y Comisiwn 2009/32/EC yCymrudfwriaeth Cymru yn ei gwneud yn haws i awdurdodau gorfodi, y diwydiant a'r cyhoedd gyfeirio iddo? Os nad ydych chi, esboniwch pam.

2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw effeithiau y gallai'r mesurau arfaethedig eu cael nad ydynt wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad hwn?
3. Ydych chi'n cytuno â'r gost ymgyfarwyddo sydd wedi'i nodi? Os nad ydych chi, esboniwch pam.
4. Oes unrhyw newidiadau eraill a fyddai'n helpu i roi rhagor o eglurder ynghylch rheoleiddio'r defnydd o doddyddion echdynnu? Os oes, eglurwch beth yw'r rhain, a pha fuddion y gallent eu cynnig.

## Ymatebion

Gofynnir bod ymatebion yn dod i law erbyn diwedd y dydd **1 Medi 2022**. Yn eich ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu gwmni (gan gynnwys manylion unrhyw randdeiliaid y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli).

### A fyddech cystal ag anfon eich ymateb i'r cyfeiriad e-bost caCymrul:

**Polisi Bwyd Cymru:** Food.Policy.Wales@food.gov.uk

I gael gwybodaeth am sut mae'r ASB yn trin eich data personol, cyfeiriwch at yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer ymgynghoriadau, sydd i'w gael fan hyn: https://www.food.gov.uk/cy/amdanom-ni/hysbysiad-preifatrwydd-ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Os ydych chi angen y ddogfen hon mewn fformat sy'n haws i'w ddarllen, anfonwch fanylion at y cyswllt a enwir ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a bydd eich cais yn cael ei ystyried.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori Llywodraeth Ei Mawrhydi. Ni ddarparwyd Asesiad Effaith gan nad oes unrhyw newidiadau i'r gofynion ar gyfer bwyd anifeiliaid, deunyddiau a ddaw i gysylltiad â bwyd, a thoddyddion echdynnu.

Ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn.

Yn gywir,

Nathan Barnhouse
Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru

## Atodiad A: Rhestr o bartïon â buddiant

**Bwyd Anifeiliaid**

- Cydffederasiwn y Diwydiannau Amaethyddol
- Cymdeithas y Dadansoddwyr Cyhoeddus
- Safonau Sicrwydd Bwyd (Tractor Coch)
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Ychwanegion ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid Prydain
- Cymdeithas Masnach Marchogaeth Prydain
- Sefydliad Siartredig Safonau Masnach (CTSI)
- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Awdurdodau Lleol a Swyddogion Gorfodi
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU)
- Swyddfa Genedlaethol Iechyd Anifeiliaid
- Safonau Masnach Cenedlaethol (NTS)
- Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Bwyd Anifeiliaid Anwes (PFMA)
- Cymdeithas Malwyr Hadau a Phroseswyr Olew (SCOPA)
- Cymdeithas Masnach Grawn a Bwyd Anifeiliaid
- Safonau Masnach Cymru (TSW)
- Melinydd Blawd y DU
- Cymdeithas Cyn Broseswyr Bwyd y DU (UKFFPA)
- Welsh Lamb and Beef Producers Ltd (WLBP)

**Ddeunyddiau a Ddaw i Gysylltiad â Bwyd**

- Awdurdodau Lleol a Swyddogion Gorfodi
- Ffederasiwn Plastigau Prydain

**Toddyddion Echdynnu**

- Y Ffederasiwn Bwyd a Diod
- Cymdeithas Ychwanegion a Chynhwysion Bwyd (FAIA)
- Cymdeithas Blas y DU (UKFA)

- Cymdeithas Diodydd Meddal Prydain (BSDA)
- Melinwyr Blawd y DU a Chymdeithas Cynhwysion Pobi (ABIM)
- Cymdeithas Te a Trwythiadau y DU
- Cymdeithas Goffi Prydain
- Cymdeithas Malwyr Hadau a Chynhyrchwyr Olew (SCOPA)
- Cymdeithas Gwneuthurwyr Byrbyrdau, Cnau a Chreison (SNACMA)
- Awdurdodau lleol a Swyddogion Gorfodi
- Consortiwm Manwerthu Prydain
- Which?